

---

## **BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

---

Dydd Mercher, 26 Gorffennaf 2017 at 1.00 pm  
Elidir Room, Rhyl Community Fire Station, Coast Road, Rhyl, Denbighshire, LL18  
3PL

---

<b>PRESENT:</b>	Bethan Jones (Cadeirydd)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
	Iwan Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Councillor Bobby Feeley	Cyngor Sir Ddinbych
	Wendy Jones	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
	Rebecca Masters	Iechyd Cyhoeddus Cymru
	Mohammed Mehmet	Cyngor Sir Ddinbych
	Dr Evan Moore	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
	Jeff Moses	Heddlu Gogledd Cymru
	Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
	Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
	Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
<b>Officers:</b>	Hannah Edwards	Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol
	Dawn Hughes	Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor
	Nicola Kneale	Rheolwraig Tîm Cynllunio Strategol
	Fran Lewis	Rheolwraig Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol
	Megan Vickery	Swyddog Ymgysylltu – Canolog
<b>In attendance:</b>	Marianne Jackson	Pennaeth Gwasanaeth Datblygu Cymunedol
	Nicola Stubbins	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
	Libby Duo	Rheolwraig Clwstwr
	Rhys Burton	Rheolwr Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf
	Melanie Williams	Swyddog Datblygu Ymchwil
	Steve Price	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

### 1. **ETHOL CADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd ail-benodi Bethan Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)) yn Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2017/18.

### **PENDERFYNWYD-**

**Ail-benodi Bethan Jones (BIPBC) yn Gadeirydd BGC Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2017/18.**

## 2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd ail-benodi Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)) yn Is-gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2017/18.

### **PENDERFYNWYD-**

**Ail-benodi Iwan Davies (CBSC) yn Is-gadeirydd BGC Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2017/18.**

## 3. **DERBYN Y CYFRANOGWYR A WAHODDWDYD YN SWYDDOGOL I FWRDD Y GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Yn unol â'r Cyfansoddiad, roedd yn ofynnol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych dderbyn Cyfranogwyr a Wahoddwyd i ymuno â'r BGC yn ffurfiol.

Mewn perthynas ag Aelodau Statudol, roedd y BGC yn cydnabod mai'r Cynghorydd Gareth Jones oedd Arweinydd newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a bod y Cynghorydd Bobby Feely yn cynrychioli Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych yn y cyfarfod hwn.

O ran y Cyfranogwyr a Wahoddwyd, derbyniodd y BGC y cyfranogwyr canlynol i ymuno â'r BGC yn ffurfiol:

- Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy – Wendy Jones
- Cwmni Adsefydlu Cymunedau Cymru – Judith Magaw
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych – Helen Wilkinson
- Iechyd Cyhoeddus Cymru – Rebecca Masters a Teresa Owen
- Heddlu Gogledd Cymru - Sian Beck
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol – Andy Jones
- Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru – Sioned Rees
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd – Stephen Hughes

### **PENDERFYNWYD-**

**Bod Swyddog Datblygu'r BGC yn ysgrifennu at y Cyfranogwyr a Wahoddwyd, fel y rhestrwyd uchod, i gadarnhau eu bod yn ymuno â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ac i bwysleisio'r pwysigrwydd eu bod yn mynychu'n rheolaidd.**

## 4. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Sian Beck (Heddlu Gogledd Cymru), Cynghorydd Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Stephen Hughes (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru), Andy Jones (Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol), Cynghorydd Gareth Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Helen Wilkinson (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych).

## 5. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2017 i'w cymeradwyo.

Cofnod 48 – Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: Diwygio Llywodraeth Leol – Ymateb i gwestiynau cysylltiedig â'r BGC: Cafwyd cadarnhad bod ymateb y BGC i'r Papur Gwyn wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Cofnod 49 – Tirwedd Partneriaeth yng Nghonwy a Sir Ddinbych a Chyllid Partneriaeth: Roedd y diagram Tirwedd Partneriaeth yn cael ei greu ar hyn o bryd gyda'r adborth a dderbyniwyd, a byddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r BGC yn y dyfodol.

### **PENDERFYNWYD-**

**Bod cofnodion y cyfarfod BGC Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2017 yn cael eu cymeradwyo.**

## 6. **REFERENDWM YR UNED EWROPEAIDD – ADBORTH SWYDDFA CYLLID EWROPEAIDD CYMRU AR Y BYLCHAU**

Dywedodd Sioned Rees (Llywodraeth Cymru) wrth yr Aelodau bod y gwaith cwmpasu oedd yn cael ei gynnal i adnabod beth fyddai effaith 'Brexit' ar ffrydiau cyllid yr UE yn gymhleth iawn.

Byddai'r BGC yn derbyn adborth mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 7. **CYHOEDDI RHAGLENNI AC ADRODDIADAU BWRDD Y GWASANAETHAU CYHOEDDUS AR WEFAN Y BWRDD**

Dywedodd Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Hannah Edwards) wrth yr Aelodau ei bod wedi derbyn e-bost gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn gofyn a oedd y BGC yn cyhoeddi ei agendau ac adroddiadau ar ei wefan.

Dim ond y cofnodion roedd y BGC yn eu cyhoeddi ar hyn o bryd, serch hynny, roedd Aelodau yn teimlo y dylai'r BGC fod yn agored a thryloyw ac y dylai cyfarfodydd fod yn agored i'r cyhoedd, ac y dylai'r agendau ac adroddiadau fod ar gael i'r cyhoeddus hefyd.

Efallai y byddai yna amgylchiadau pan fyddai adroddiadau angen cael eu heithrio rhag datgeliad cyhoeddus, felly fe awgrymwyd bod adroddiadau o'r fath yn destun prawf lles y cyhoedd. Mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio'r prawf hwn i ganfod a ddylai adroddiadau gael eu heithrio.

Gofynnwyd bod copi o ffurflen prawf lles y cyhoedd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y BGC i'w ystyried.

### **PENDERFYNWYD-**

**Bod copi o ffurflen prawf lles y cyhoedd Awdurdodau Lleol yn cael ei chyflwyno yn y cyfarfod nesaf er mwyn i'r BGC ystyried a ddylai agendâu ac adroddiadau fod ar gael yn gyhoeddus.**

## 8. CYMUNEDAU YN GYNTAF – CYMERADWYO'R CYNLLUNIAU PONTIO

Yn dilyn cyhoeddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y byddai rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben erbyn diwedd mis Mawrth 2018, cafodd cynlluniau pontio ar gyfer Sir Ddinbych a Chonwy eu cyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

### Cynllun Pontio Sir Ddinbych

Cyflwynodd Rhys Burton, Rheolwr Rhaglen (Co-op) adroddiad i'r BGC yn nodi beth oedd ymagwedd y Co-op er mwyn cau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn Sir Ddinbych erbyn 31 Mawrth 2018.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y trefniadau rhwng y Co-op a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd), wrth i'r Awdurdod Lleol baratoi i arwain a rheoli rhaglen Cymunedau am Waith, Cronfa Etifeddiaeth a Grant Cyflogadwyedd yn Sir Ddinbych.

Dim ond un o dri Corff Cyflawni Arweiniol ar gyfer rhaglen Cymunedau yn Gyntaf oedd y Co-op nad oedd yn awdurdod lleol, ac roeddynt yn wahanol gan mai nhw oedd yr unig Gorff Cyflawni Arweiniol oedd ag ymrwymadau rhaglen ar draws mwy nag un awdurdod lleol. Roedd y Co-op wedi cefnogi rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn Sir Ddinbych, Sir Benfro a rhannau o Flaenau Gwent am sawl blwyddyn.

Yn dilyn arweiniad a thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru (LIC), gan gydnabod yr ystyriaeth fwy cymhleth bod y Co-op yn cau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf mewn tair ardal awdurdod lleol, cafodd Cynllun Pontio Amlinellol ei gyflwyno i LIC ym mis Ebrill 2017 a chyflwynwyd Cynllun Manwl ym mis Mehefin 2017. Roedd LIC yn derbyn y byddai nifer o newidynnau yn parhau i gael dylanwad ar ymagwedd pontio derfynol rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac ar y cynigion ar gyfer Cronfa Etifeddiaeth a Grant Cyflogadwyedd - roedd y ddau ohonynt fod i gael eu hariannu o fis Ebrill 2018.

Ym mhob ardal Cymunedau yn Gyntaf, roedd LIC wedi torri cyllid y rhaglen 30% ar gyfer 2017/18, gan arwain at oblygiadau uniongyrchol ar gyfer niferoedd staff tîm clwstwr a chyllid prosiectau. Dywedodd y Co-op bod dau Swyddog Arweiniol wedi gadael eu swyddi yn Sir Ddinbych a bu'n rhaid iddynt derfynu gwasanaethau a gomisiynwyd yn allanol.

Roedd LIC wedi cysylltu â CSDd i ofyn iddynt arwain rhaglen Cymunedau am Waith, gyda'r gwaith i fod i gychwyn yn y flwyddyn ariannol hon (2017/18) a byddai'n gyfle yn ystod y cyfnod oedd yn weddill o raglen Cymunedau yn Gyntaf i gydweithio ar wasanaethau oedd yn seiliedig yn y gymuned ac felly, yn cyrraedd preswylwyr presennol.

O ran y Grant Cyflogadwyedd, byddai'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gynhwysfawr ar gyfer rhaglen Cymunedau am Waith gyda'r bwriad o gefnogi sylfaen ehangach o gleientiaid trwy eu datblygu tuag at gyflogaeth a gallu i fod yn barod i weithio. Roedd yna hyblygrwydd cynyddol o fewn y rhaglen i ymateb i ymagwedd leol ac nid oedd ei ardal ddaearyddol yn gyfyngedig i'r ardal Cymunedau am Waith.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhannu canllawiau cychwynnol ar y Gronfa Etifeddiaeth yn ddiweddar, ac roedd yn ymddangos y byddai yna ddigon o hyblygrwydd o fewn y cymwysiadau i alluogi rhagor o gefnogaeth ar gyfer y prif ddarnau o waith, a oedd yn cael eu gwerthfawrogi yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

### Cymunedau yn Gyntaf Conwy

Cyflwynodd Marianne Jackson, Pennaeth Gwasanaethau Datblygu Cymunedol (CBSC) adroddiad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoedd ar y broses bontio o raglen Cymunedau yn Gyntaf Conwy i Raglen Cyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru, ac yn dilyn cyfnod o ymgynghori, y Prosiectau Etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf arfaethedig o fis Ebrill 2018 ymlaen.

Yn unol â chanllawiau LIC, roedd y Cynllun Pontio Amlinellol a Chynllun Manwl wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac roedd y ddwy ddogfen yn nodi'r ymagwedd ac amserlenni i gau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'r cyfnod pontio arfaethedig tuag at yr ymagwedd newydd gan ddefnyddio cyllideb Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer 2017/18.

Roedd staff Cymunedau yn Gyntaf wedi cael eu cefnogi drwy'r broses adleoli a byddai hyn yn parhau tan ddiwedd mis Gorffennaf pan fyddai contractau cyfnod penodol 4 aelod staff yn dod i ben. Roedd pedwar aelod staff eisoes wedi gadael yn dilyn cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet i ddirwyn y rhaglen i ben.

Cafodd 70% o gyllid ar gyfer cyllideb bresennol Cymunedau yn Gyntaf ei groesawu, ac o ystyried yr hyblygrwydd i ddefnyddio'r arian pontio, byddai'n galluogi'r Cyrff Cyflawni Arweiniol i ddefnyddio'r adnodd i sicrhau bod rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cau'n iawn, a byddai'n gyfle i ymgysylltu'n briodol â chymunedau ac i ymgysylltu â chydweithwyr sydd yn rhan o raglenni sy'n cyd-fynd yng Nghonwy.

Roedd y BGC yn croesawu'r trefniadau pontio, serch hynny roedd yn cydnabod y byddai angen rheoli'r trefniadau'n ofalus iawn er mwyn lleihau'r effaith ar gleientiaid a chymunedau.

Cafwyd trafodaeth hefyd ar y materion a ganlyn:

- Er nad oedd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi cael effaith gadarnhaol ar lefelau tlodi, roedd yna rai meysydd o lwyddiant ac roedd angen adeiladu ar y rhain.
- Yr angen i sicrhau bod cleientiaid yn cael mynediad at Wasanaethau Cyhoeddus o fewn y rhaglenni newydd.
- Yr angen am eglurder a datblygu cysylltiadau gyda phob rhaglen cyflogadwyedd arall i sicrhau ymagwedd gyfannol.
- Yr angen i asesu effaith y trefniadau pontio, yn enwedig yn ymwneud ag iechyd, dysgu a ffyniant.

Diolchodd y Cadeirydd am y diweddariad ar Gynlluniau Pontio gan y ddwy Sir.

## **PENDERFYNWYD**

- (a) Bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi Cynllun Pontio Cymunedau yn Gyntaf Co-op ac ymagwedd Co-op tuag at gau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn Sir Ddinbych a'r berthynas waith tuag at gyflawni rhaglenni Cymunedau am Waith, Grant Cyflogadwyedd a Chronfa Etifeddiaeth.**
- (b) Nodi'r trefniadau pontio o raglen Cymunedau yn Gyntaf Conwy i Raglen Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru.**
- (c) Bod adroddiadau pellach ar y trefniadau pontio yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.**

## **9. BLAENORIAETHU AMCANION LLES**

Roedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych wedi cynnal Gweithdai Budd-ddeiliaid ym mis Mehefin 2017, er mwyn cynnig a datblygu Amcanion Lles i'w cynnwys yng Nghynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych a oedd angen cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2018.

Roedd y BGC wedi cynnal pedwar gweithdy a oedd yn ymdrin â'r themâu canlynol:

- Yr Amgylchedd – dan arweiniad Sian Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru)
- Economi – dan arweiniad Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Diwylliant – dan arweiniad Mohammed Mehmet (Cyngor Sir Ddinbych)
- Iechyd a Chymdeithasol – dan arweiniad Bethan Jones (BIPBC) a Rebecca Masters (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Roedd dros 180 o gynrychiolwyr yn bresennol yn y gweithdai, a diolchwyd i'r BGC am drefnu'r digwyddiadau.

Cafodd dogfen ei chyflwyno i'r aelodau oedd yn rhestru 13 thema gyffredin/blaenoriaeth a gafodd eu henwi o'r Gweithdai. Ar gyfer pob thema, mae'r ddogfen yn rhestru:

- Cysylltiadau at y 7 Nod Lles
- Cysylltiadau at y pynciau a nodwyd yn yr Asesiad Lles
- Cysylltiadau â blaenoriaethau corfforaethol partneriaid
- Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer y tymor byr, canolig a hirdymor
- Cysylltiadau at y 5 ffordd o weithio ac a oedd yna waith yn digwydd ar y cynigion mewn man arall

Gofynnwyd i'r BGC ystyried pa rai o'r 13 blaenoriaeth ddylai gael eu cynnwys yng Nghynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych.

Wrth ystyried pob un o'r themâu/blaenoriaethau canlynol, fe asesodd yr aelodau lefel y risg a beth fyddai'n digwydd os na fyddai'r flaenoriaeth yn cael sylw yn y tymor hir; ystyried sut y gallai'r BGC weithio gyda'r gymuned i wneud gwahaniaeth gwirioneddol; a'r potensial y gallai partneriaid gydweithio ar y flaenoriaeth.

- Amcan 1: I barhau gyda'r flaenoriaeth dros dro o sicrhau bod 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn yn ddiogel, iach gyda'r cyfle i ddatblygu i'w llawn botensial.
  - **CYTUNWYD** i'w gynnwys fel blaenoriaeth yn y Cynllun Lles, gan y credid y byddai buddsoddi yn y 1000 diwrnod cyntaf yn cael effaith gadarnhaol a gallai greu adenillon uwch ar fuddsoddiad ar draws y sector gyhoeddus.
  - Roedd yr amcan hwn eisoes wedi cael ei gytuno fel blaenoriaeth dros dro gan y BGC ac felly roedd gweithgareddau eisoes ar waith.
- Amcan 2: Y potensial i ddatblygu canolfannau cymunedol, i feithrin rhagor o weithgaredd cymunedol lleol drwy ddod â phreswylwyr a sefydliadau/gwasanaethau allweddol ynghyd i wella ansawdd bywyd a chreu cymunedau gwydn.
  - **CYTUNODD** aelodau i uno Amcanion 2, 3 a 4, a'i gynnwys fel blaenoriaeth o fewn y Cynllun Lles, gyda'r ffocws ar gynllunio cymunedol a chanolfannau.
  - Roedd y BGC yn teimlo y gallai pob partner gyfrannu a dylanwadu'n uniongyrchol ar yr amcan.
- Amcan 3: Yr angen i weithio ochr yn ochr â chymunedau unigol ar raddfa leol i ddatblygu cynlluniau cymunedol, a fyddai'n cwmpasu elfennau o hyblygrwydd newid hinsawdd (adeiladau wedi'u dylunio'n well), seilwaith gwyrdd ar gyfer hamdden awyr agored, cynaliadwyedd a materion cymdeithasol eraill.
  - **CYTUNODD** aelodau i uno Amcanion 2, 3 a 4, a'i gynnwys fel blaenoriaeth o fewn y Cynllun Lles, gyda'r ffocws ar gynllunio cymunedol a chanolfannau.
  - Roedd y BGC yn teimlo y gallai pob partner gyfrannu a dylanwadu'n uniongyrchol ar yr amcan.
- Amcan 4: I ddatblygu cynllunio cymunedol ymhellach o ran democratiaeth i sicrhau bod ein cymunedau yn gynaliadwy, yn wydn ac yn frwdfrydig.
  - **CYTUNODD** aelodau i uno Amcanion 2, 3 a 4, a'i gynnwys fel blaenoriaeth o fewn y Cynllun Lles, gyda'r ffocws ar gynllunio cymunedol a chanolfannau.
  - Roedd y BGC yn teimlo y gallai pob partner gyfrannu a dylanwadu'n uniongyrchol ar yr amcan.
- Amcan 5: I ddatblygu ymhellach rhagnodi cymdeithasol/gwyrdd ar draws Conwy a Sir Ddinbych sydd yn cefnogi amrywiaeth eang o

anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymarferol gan alluogi pobl o bob oed i ffynnu a byw mewn cymunedau gwydn.

- Er bod y BGC yn cefnogi'r cynigion, nid oedd Aelodau yn teimlo y dylai gael ei gynnwys fel blaenoriaeth yn y Cynllun Lles.
  - Serch hynny, gan fod y partneriaid statudol yn rhai o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal, gallai'r BGC edrych sut y gallai ddylanwadu ar ragnodi cymdeithasol/gwyrdd ar draws y ddwy Sir.  
**CYTUNODD** Sian Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru) i roi cyflwyniad ar y Prosiect Symud Ymlaen yng nghyfarfod y BGC yn y dyfodol.
- Amcan 6: Iechyd meddwl da a lles gan bobl o bob oedran.
    - **CYTUNODD** aelodau fod hwn yn amcan a ddylai gael ei gynnwys fel blaenoriaeth o fewn y Cynllun Lles, gan y gallai bob partner gydweithio i wella lles meddyliol drwy atal ac ymyrryd yn fuan.
    - Byddai hyn yn arwain at fanteision arwyddocaol ar gyfer iechyd ac ansawdd bywyd ar gyfer unigolion a chymunedau a gallai arwain at ostyngiad yn y galw a defnydd o wasanaethau cynnal. Fe awgrymwyd fel un o'r gweithgareddau, y gallai pob partner statudol gymryd rhan yn y Wobr Iechyd Corfforaethol.
  - Amcan 7: Paratoi ar gyfer a chynnal annibyniaeth a lles pobl hŷn.
    - **CYTUNWYD** y dylai'r amcan hwn gael ei gynnwys fel blaenoriaeth yn y Cynllun Lles.
    - Roedd angen i Wasanaethau ac unigolion gynllunio'n briodol ar gyfer byw'n annibynnol ac ystyried opsiynau tai â chymorth addas, neu fel arall byddai pobl hŷn yn aros mewn gofal tymor hir.
    - Fe awgrymwyd y gallai'r naratif gael ei aralleirio i hyrwyddo gwydnwch hefyd.
    - **CYTUNWYD** y byddent yn gofyn am ragor o wybodaeth gan Fwrdd Rhan 9 am y gwaith roeddynt yn ei wneud.
  - Amcan 8: Y potensial i ddatblygu a hyrwyddo ymhellach y defnydd o ddatrysiadau 'naturiol' i reoli dŵr a materion amgylcheddol cysylltiedig e.e. rheoli perygl llifogydd naturiol.
    - Roedd y BGC yn cydnabod pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo rheoli perygl llifogydd.
    - Gallai'r BGC ddylanwadau a darparu arweiniad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac felly, dylid ei ystyried yn flaenoriaeth yn y Cynllun Lles.
  - Amcan 9: Y syniad o safon amgylcheddol bwrpasol ar draws pob aelod o'r BGC a'i hyrwyddo ymysg sefydliadau eraill yng Nghonwy a Sir Ddinbych.
    - Er nad oedd y BGC yn teimlo ei fod yn flaenoriaeth ar gyfer y Cynllun Lles, fe allai'r BGC gefnogi'r amcan drwy annog sefydliadau partner i gytuno i safon amgylcheddol, megis Gwobr



y Ddraig Werdd, a fyddai'n addysgu'r gweithlu a gwneud sefydliadau yn fwy cynaliadwy ac yn barod at y dyfodol o ran lleihau defnydd o ynni ac allyriadau carbon.

- **CYTUNWYD** y byddai swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhoi cyflwyniad am Wobr y Ddraig Werdd yng nghyfarfod y BGC yn y dyfodol.
- Amcan 10: Y potensial i edrych ar ymagweddau gwahanol o newid ymddygiadol i gefnogi ein dinasyddion i wneud newidiadau cadarnhaol i ffordd o fyw a dewisiadau i fod yn fwy gwydn.
  - Roedd y BGC yn teimlo y gallai egwyddor yr amcan gael ei gysylltu i bob blaenoriaeth arall ac felly, ni ddylai gael ei gynnwys fel blaenoriaeth ar wahân yn y Cynllun Lles.
  -
- Amcan 11: Yr angen i wella mynediad at opsiynau cludiant sydd yn effeithlon a fforddiadwy.
  - Er bod y BGC yn cydnabod pwysigrwydd yr amcan hwn, roeddynt yn teimlo na fyddai'r BGC yn gallu dylanwadu ar y flaenoriaeth hon i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a bod gwaith yn digwydd ar lefel ranbarthol gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Felly roeddynt yn teimlo na ddylai'r amcan hwn gael ei gynnwys fel blaenoriaeth yn y Cynllun Lles.
  - Gofynnodd y BGC am ragor o wybodaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf Cludiant.
- Amcan 12: Hyrwyddo Conwy a Sir Ddinbych fel lle i fyw, gweithio a mwynhau.
  - Roedd y BGC yn teimlo y dylai'r amcan hwn fod yn egwyddor sylfaenol ar gyfer pob blaenoriaeth ac felly, ni ddylai gael ei gynnwys fel blaenoriaeth ar wahân yn y Cynllun Lles.
  - Gofynnwyd bod rhagor o wybodaeth yn cael ei ddarparu i'r BGC, er mwyn deall sut y gallai gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Fargen Dwf effeithio ar y ddwy Sir a sut y gallai sefydliadau partner y BGC, fel cyflogwyr mawr gymryd mantais o hyn.
- Amcan 13: Creu llythrennedd emosiynol a dyheadol ymysg pobl ifanc.
  - Roedd y BGC yn teimlo bod hwn yn amcan pwysig a bod gan y BGC rôl i'w chwarae wrth adnabod y rhwystrau. Fe awgrymwyd y gallai'r teitl gael ei newid i ddarllen fel hyn: Creu pobl ifanc hyderus, dyheadol a chytbwys a'i fod yn cael ei gynnwys fel blaenoriaeth yn y Cynllun Lles.

Fe nododd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 6 blaenoriaeth lefel uchel a byddai Swyddogion nawr yn mynd ati i ddechrau llunio'r Cynllun Lles i gynnwys y blaenoriaethau hyn.

Gofynnodd y Cadeirydd am gyfundeb er mwyn cyhoeddi cynllun lefel uchel, i roi ystyriaeth iawn i'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cyflwyno.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod y 6 blaenoriaeth ganlynol yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych:**

- **Amcan 1 - I barhau gyda'r flaenoriaeth dros dro o sicrhau bod 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn yn ddiogel, iach gyda'r cyfle i ddatblygu i'w llawn botensial.**
- **Amcanion 2, 3 a 4 – Uno'r rhain gyda'u gilydd, gyda'r ffocws ar gynllunio cymunedol a chanolfannau.**
- **Amcan 6 - Iechyd meddwl a lles da gan bobl o bob oedran.**
- **Amcan 7 - Paratoi ar gyfer a chynnal annibyniaeth a lles pobl hŷn.**
- **Amcan 8 - Y potensial i ddatblygu a hyrwyddo ymhellach y defnydd o ddatrysiadau 'naturiol' i reoli dŵr a materion amgylcheddol cysylltiedig e.e. rheoli perygl llifogydd naturiol.**
- **Amcan 13 - Creu llythrennedd emosiynol a dyheadol ymysg pobl ifanc (ystyried newid y teitl).**

**(b) Bod y Cynllun Lles drafft yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

**(c) Bod Sian Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru) yn rhoi cyflwyniad yng nghyfarfod y BGC ar y Prosiect Symud Ymlaen.**

**(d) Gofyn am ragor o wybodaeth am waith Bwrdd Rhan 9.**

**(e) Bod swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhoi cyflwyniad am Wobr y Ddraig Werdd.**

**(f) Gofyn am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am ddyletswyddau o dan y Ddeddf Cludiant.**

**10. Y 1000 DIWRNOD CYNTAF – Y CYNNYDD HYD YMA A'R CYNLLUN GWEITHREDU**

Cyflwynodd Rebecca Masters (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ddiweddariad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am gynnydd y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i wneud ar ran y BGC gyda gwaith Y 1000 Diwrnod Cyntaf. Roedd y BGC wedi nodi'r Y 1000 Diwrnod Cyntaf yn flaenoriaeth dros dro.

Ar ôl gweithdy, cafodd tair blaenoriaeth i'w gweithredu eu nodi fel a ganlyn:

- **Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddod ynghyd yn anffurfiol i rannu gwybodaeth am deuluoedd fel tîm amlddisgyblaethol.**
- **Cefnogi dull cliriach a mwy cyson i rannu a chasglu data rhwng gwasanaethau.**
- **Adolygu'r trothwy atgyfeirio ar draws y system i adnabod pwyntiau pwysau a bylchau.**

Roedd Gweithgor wedi cael ei sefydlu i symud ymlaen â gwaith agenda Y 1000 Diwrnod Cyntaf. Fe wnaeth y Gweithgor nodi bod llawer o waith yn digwydd yn lleol gan dynnu sylw at y gwahaniaethau mewn ymagwedd rhwng y ddwy sir. Cafodd trefniadau rhannu data anffurfiol a ffurfiol rhwng asiantaethau partner eu nodi fel heriau i gefnogi teuluoedd yn llawn. Cafodd trothwyon adolygu eu nodi fel problem a byddai hyn yn cael ei drafod yn fwy manwl yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor.

Cafodd yr aelodau wybod bod y cynnig gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch ymuno â chyd fwrdd 1000 Diwrnod Cyntaf wedi cael ei gryfhau, ac roedd hi bellach yn briodol i ystyried a fyddai ymuno â'r cyd fwrdd cenedlaethol yn briodol ar gyfer y BGC.

#### **PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi'r gweithgaredd ers mis Mawrth 2017.**

**(b) Bod y cynigion i ymuno â chyd fwrdd Y 1000 Diwrnod Cyntaf yn cael eu cymeradwyo.**

#### **11. AMSERLEN A GWAITH PARATOI'R CYNLLUN LLES**

Cafodd templed drafft Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth.

#### **12. DIWEDDARIAD YN DILYN TREFNIADAU'R LLYWODRAETH LEOL**

Gohiriwyd yr eitem hon.

#### **13. DIWEDDARIAD CYFATHREBU**

Gohiriwyd yr eitem hon.

#### **14. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cafodd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ei gyflwyno a chafodd yr ychwanegiad canlynol ei nodi:

- Ystyried Adroddiad Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol – Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory (dysgu o Aseidiadau Lles 2017).

#### **15. UNRHYW FATER ARALL**

Dim.

(Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm)

---